Cyfres Llanbedr | Tachwedd, 1931. | Cyf. 31. Rhif 11

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd. Y Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Lliwiau'r Hydref.
Dyffryn Cletwr Fach.
Urdd y Benywod.
Michael Faraday.
"Hanfod Duw a Pherson Crist."
Penillion Telyn.
Priodasau. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. TACHWEDD, 1931. Cyf. XXXI. Rhif 11.

Lliwiau'r Hydref.

Y MAE'R Celt, meddir, yn hoff o liw, ac am y tro yr wyf innau'n Gelt wrth edrych ar liwiau'r Hydref. Y mae sŵn y dail yn cwympo a'r noethder llwm yn y gair—*yr hydd*, ond odid, yn *brefu*. I'r neb a gâr liw, y mae'r hydref yn dymor diddorol. O leiaf anthem lliw sy'n swnio yn fy nghlust ac wedi ei ferwino yn ystod y dyddiau diweddaf yma. Yr wyf i fy hun yn ddall i liw. Adwaenaf y coch a'r glas, y melyn a'r du ond ofer sôn am ragor. Nid wyf ar fy mhen fy hun y dyddiau hyn canys y mae yna filiynnau yn methu gweld yn eu panig ond y lliw coch y sy'n arwydd o berigl. Nid dyna serch hynny y lliwiau a olygaf ond ar ddydd yr etholiad croeswn ar fy ffordd adref ryw bedair neu bump etholaeth. Yr oedd popeth yn dawel a gweddaidd heb ddim i beri anesmwythyd i mi onibae am y lliw. Credwn ei bod yn *libel* ar filiynnau o weithwyr gonest i unrhyw blaid neu ddosbarth fabwysiadu lliwiau'r wlad—y coch a'r gwyn a'r glas—yn liwiau plaid neu gymysgedd o bleidiau gan awgrymu na pherthyn gwladgarwch ond iddynt hwy. Nid wyf yn sicr yn y byd nad yw record y rhai yr amheuid eu gwladgarwch ar ddydd etholiad yn well yn nydd y storm a'r tywydd garw nag eiddo llawer yn eu coch a'u gwyn a'u glas. Rhyw snobyddiaeth gwleidyddol ydyw peth fel yna y sy'n gyrru dyn cyffredin yn wrthryfelwr.

Teilynga'r llafurwr wisgo coch—lliw'r gwaed a dywalltwyd yn Ffrainc a lleoedd eraill. Teilynga'r glas os mai safon bonedd cenedl yw pen a chalon ac nid gwaed a snobyddiaeth. Rhoer y lliw gwyn iddo hefyd er dangos bod ei record yn nydd yr ystorm cyn wyned ag undyn, ac iddo yn Ffrainc fel y wraig weddw dlawd honno gynt roi ei holl eiddo i'w wlad—ei fywyd ei hunan.

Dylasem yn yr ugeinfed ganrif brisio dyn am ei ddynoliaeth ac nid am waed na chyfoeth na snobyddiaeth. Credaf fod fy nghariad i at fy ngwlad gymaint ag eiddo'r snobyddion oherwydd y mae fy mywyd i yn rhan a chyfran o fywyd y wlad fel yr eiddo hwythau, ac y mae ei thir yn gysegredig imi am mai ynddo y gorwedd llwch fy rhai annwyl. O weld ymffrost snobyddiaeth felly ofnaf na welwn innau ond un lliw—a Choch, gyda llaw, oedd y lliw hwnnw.

Chwerddais lawer tro gynt o weld twrr o ddefaid yn gwylltu a phob un o'r cant neu ragor yn neidio yn yr unman heb ddim yn galw am hynny. Y mae hyd yn oed y " pennau du " a'r " pennau brith " yn gwynnu yn ddisymwth ar yr hewl, ac y mae'n anesboniadwy. Yn ddiweddar darllenwn gyfrol drwchus ar *herd psychology* —yr haid yn dangos ei hun. Ni fedr neb esbonio'n gywir a ddigwydd ac am a wn i, y mae cenedl fel haid o ddefaid—ar dro try'r cyfan yn goch—*it sees red*—ac er da neu ddrwg y mae'n cenedl ni wedi *neidio* fel y defaid. Nid oes i ni bellach ond gobeithio y caiff le esmwyth i ddisgyn arno. Y mae'r lliwiau wedi bod yn ddigon *du*. Ni wn ond weithian y maent yn goch-ddu. Tybed y gwelir cyn bo hir rwydwe arian dros y cymylau coch-ddu weithian ? Nid oes imi heddiw a lliwiau'r hydref o'm deutu ond cofio geiriau gwladweinydd enwog, " *Wait and see.*"

* * *

Gwelais ar fy nhaith y lliwiau hynyna ond mynd dros y *rails* wneuthum i sôn amdanynt. Nid dim ond coch a glas a gwyn y sy'n lliwiau'r hydref, a mwy naturiol o lawer ydyw lliwiau'r hydref na'r lliwiau benthyg hyn, a benthyg mewn rhagor nag un ystyr.

Yr oedd yr hen Gymry yn caru rhoi lliw ar y darlun, a cheir yn y Mabinogi liwiau prydferth.

" Melynach oedd ei phen na blodau y banadl. Gwynnach oedd ei chnawd na distrych tonn. Gwynnach oedd ei dwyfron na bron alarch gwyn. Cochach oedd ei deurudd na'r ffion cochaf. Y sawl a'i gwelai cyflawn fyddai o'i serch. Pedair meillionen gwynion a fyddai yn ei hol pa ffordd bynnag yr elai. Ac am hynny y gelwid hi Olwen."

Y mae yna ddarlun arall a'i liw yn brydferth.

" Sef a orug Peredur sefyll a chyffelybu dued y frân a gwynder yr eiry a choched y gwaed i wallt y wraig fwyaf a garai a oedd

cyn ddued a'r muchudd, a'i chnawd oedd cyn wynned a'r eira, a chochter y gwaed yn yr eira i'r deufann gochion oedd yn ei gruddiau."

Gwyddai'r arlunydd y ffordd i roi lliw ar y cynfas. Nid adgyfodi hen ddarluniau mo'm hamcan ychwaith a gŵyr y darllenydd yn well na mi hwyrach am gampweithiau'r hen arlunwyr ynghrog yn arlunfa llên.

* * *

A minnau wrthof fy hunan pwy ddydd, safwn ger gallt o goed ar ddiwrnod digon têg a chofio yr amser o'r flwyddyn. Yr oedd y llawr dan fy nhroed fel carped a'i odre fel hen aur o ddail crin ac yma a thraw yr oedd ambell ddeilen a gwawr goch a llwyd arni fel "*applique*" ar hyd-ddo. Ceisiwn wahanu'r lliwiau. Yr oedd yr aur a'r oraen yn ddigon plaen, a'r llwydcoch i'w weld yn awr ac yn y man. Edrychwn i fyny ac yng nghornel yr allt yr oedd coed bytholwyrdd. Druan ohonof. Yr oedd rhai ohonynt bron cyn lased a'r cennin. O ail edrych gwelwn rhyngddynt ddail goleuach a gwyrddach, a medrwn ganfod yn yr allt honno bob lliw o'r gwyrdd glasaf i'r gwyrdd golau a'r melyn yn mynnu dod i'r golwg. Rhwng y dail yr oedd y criafol coch yn dechreu dod i'r golwg ac "afalau'r bwci." Fe roiswn unpeth am fedru nodi pob *shade* a oedd yn yr allt honno. Sonid am dylwyth teg ond buasai rhaid cael eu gallu hwy i fynd a dod cyn medru hudo'r lliwiau i bapur. Gwelais liwiau'r enfys dro byd ond ni welais ynddo *shades* lliwiau'r hydref.

Trwy frigau'r coed noethlwm bellach gwelwn yr awyr las ac ambell gwmwl gwyn fel eira neu gotwm neu blu'r gweunydd yn chwarae ar hyd-ddo. Yn y pellder yr oedd yn duo ac ambell gwmwl unlliw'r inc i'w ganfod. Yr oedd pelydrau'r hwyr yn chwarae arno nes ei droi yn ddu-goch neu borffor. Credwn fod pob wiwer ynghwsg ond yr oedd hithau fel finnau am glywed ffigyrau'r etholiad cyn troi i gysgu er gweld a gostiai'i bwyd ragor iddi wedi dihuno. O'r hyn leiaf yr oedd ei gwisg gopr yn edrych yn dlws drwy wyrdd y dail celyn. Dan fy nhraed fel petae rhedai cwningen i'w thwll, a'i lliw llwyd a gwyn fel pin mewn papur chwedl slawer dydd. Y peth oedd yn od oedd na welais i liwiau pendant ond yn hytrach un *shade* yn rhedeg i'r llall nes fy nrysu'n lan.

Nid fy amcan yw athronyddu ar liw ond o gofio fod un blaid yn gwisgo *melyn* syllais eilwaith, a than droed fel dail crin oedd y lliw melyn hwnnw heb ond ambell ddeilen felen fach ar y brig yn sôn am y dyddiau gynt. Teimlwn yn drist o athronyddu ar

y cwymp ond wrth gerdded trwyddynt yr oedd eu sŵn cras yn son am y blagur bach oedd ar ôl ar y pren ac ymhen ennyd i flaguro a deilo o'r newydd.

Trois adref gan ddiolch fy mod yn ddall i liw, ond ar fy ngwaethaf gwelwn yr ysnodennau coch a glas a gwyn rhyngof a chyfoeth diderfyn lliwiau'r hydref.

Dyffryn Cletwr Fach.

TUA chwarter milltir islaw Bwlchyfadfa, ar ystlys dde i'r dyffryn, yr ydym yn sefyll ar y brif-ffordd sydd yn arwain o Gei-Newydd i Bencader, a gyferbyn genau hen chwarel enwog Gwaralltferdre. Bu hwn yn le bywiog iawn un amser—sŵn y bar haearn a'r ordd a ffrwydriadau pylor glywid yma. Goruchwyliaeth rhain oedd gorfodi y chwarel i roi o'i fynwes feini o'r fath orau. Tynnwyd o'i grombil filoedd lawer o dunelli o feini gwerthfawr, a chludwyd hwy i wahanol drefydd ar hyd a lled y wlad, ac y mae golwg arddunol ar lawer o'r adeiladau sydd wedi cael defnyddiau eu muriau o'r lle hwn, a gellir hefyd ddweyd am dano, iddo fod yn gyfrwng i amddiffyn llawer teulu rhag ymosodiadau newyn.

Heddiw gellir meddwl wrth edrych arno ei fod wedi blino, ac mewn trwmgwsg heb fod ganddo yr un gorchwyl i'w gyflawni. Nid ydym ni yn deall ei stori i bwrpas, ond odid y gallai y daearegydd gario ymlaen ymddiddan cyfeillgar ag ef a chael allan o hono ychydig o'i gyfrinach mewn perthynas i'w oedran ac o ble y cafodd ei elfennau gwerthfawr. I brofi ei enwogrwydd gwnawn grybwyll y ffaith fod pwyllgor Eisteddfod y Llwyn yn y flwyddyn 1886 yn ei ystyried yn destun teilwng i gynnig gwobr am yr englyn gorau iddo, ac os yw'm côf yn ffyddlon i'r gwir, y diweddar Gwarnant Williams o dan y ffugenw "Gwehydd Bach ar goedd y byd" gipiodd y wobr. Wele'r englyn :—

Gwaralltferdre, lle serth llwyd,—o'i fynwes
Llyfnion feini dynnwyd
Yn wir hael, yn ddir, â hwy
Dai odiaeth adeiladwyd.

Clywch! y mae rhyw atsain ddieithr i'w chlywed obry yn y dyffryn. Whit y llythyr-gludydd ydyw i ddeffroi'r trigolion a'u galw i mofyn y llythyrau am nad oedd ef i fyned yma a thraw

i'w dosbarthu. Cyfnod newydd yn hanes y dyffryn oedd hwn—Tua saith deg o flynyddoedd yn ôl, pan apwyntiwyd llythyr-gludydd i gludo llythyrau a newyddiaduron yn ddyddiol o Siop *New Inn* i Dalgarreg. Yr oedd y daith hon gan mwyaf trwy ddyffryn Cletwr Fach. Hyd yr amser hwn, trosglwyddid y llythyrau a phethau eraill oedd yn dyfod o'r llythyrdy o law i law, gan y trigolion. Y llythyr-gludydd apwyntiedig cyntaf yn y rhanbarth hwn oedd Ianto Dybacco. Wrth yr enw hwn yr adnabyddid ef gan bawb. Evan Davies oedd ei enw iawn, ond y mae'r dyn sydd gennym dan sylw yn mynd i golli'n llwyr yn yr enw hwn. O anwyldeb yn hytrach nag o wawd y gelwid ef wrth ei lysenw. Hwyrach iddo gael ei lysenw o herwydd ei hoffter o'r myglys; beth bynnag yr oedd y llysieuyn chwerw hwnnw yn felys iawn iddo ef hyd y diwedd. Safai tua pum troedfedd a phedair modfedd o uchter, corff cymesur, a dau lygad tro. Yr ydym yn sylwi fel hyn, er mwyn i'r darllenydd gael hanner cipolwg ar y gŵr sydd yn cael ein sylw. Yr oedd ei ddau lygad yn eithafol o'u lle a dyna'r hynodrwydd pennaf a berthynai iddo, ond yr oedd ei osgo hefyd yn hynod ac yn wahanol i bawb arall. Codai ei draed yn uchel rhag taro o honynt wrth wrthrychau ar y llawr, oblegid nid oedd ei olygon yn ei gynorthwyo i'r graddau y dylent. Yr oedd yn troi ei ben ac yn edrych i gyfeiriad y droed a fyddai'n symud. Gellid meddwl fod acen (rhythm) ei gerddediad yn berffaith, a dychmygem glywed ei gerddediad yn ymson fel hyn :—

Rhaid i'r postman gadw'i amser, a mynd yn gynt—gynt—gynt. Rhagredegydd oedd ef i'r merlyn-gerbyd, y ceffyl haearn a'r *Royal Mail*. Rhyw fath o gerbyd modur yw'r olaf a hwn sydd mewn bri yn y dyffryn heddiw. Rhyfedd y cyfnewidiadau, onite? mewn trigain mlynedd.

Canodd bardd y dyffryn i Ianto, a chyffelybodd ef i'r Royal Mail.

"Sain whit sydd yn adseinio,
Trwy'r dyffryn y mae cyffro;
A'r bobl yn gweiddi yn ddigêl
Mae'r *Royal Mail* yn pasio."

"Y *postman* sydd yn llamu,
Yn frysiog ar i fyny;
Mae gohebiaethau lond ei gŵd—
Ar dywydd brwd mae'n chwysu."

Dyn amryddawn oedd Ianto. Mae'n wir ei fod yn berchen ar amryw ddoniau ond yr oeddynt yn gymysgfa anghymodlawn o elfennau gwahanol ac anghydnaws. Heno mewn neithor, nos

yfory mewn gwylnos, gwelsom ef yn mynd i ffair a mochyn a rheffyn am ei goes, a gwelsom ef mewn ychydig ddyddiau wedyn a golwg leddfol arno yn arwain angladd, ac acen yr Hên Ganfed yn ei gerddediad. Bob amser gwnai actio yn y cywair lleddf mewn angladd a gwylnos. Ei swydd mewn angladd fyddai mesur pellter oedd i bob pedwar gario'r corff—dyna'r arferiad y pryd hwnnw, ac nid oedd ei fath yn hyn o beth ; mesurai ymron i'r fodfedd. Pan fai ef wrth y gorchwyl hwn ni feiddiai neb aflonyddu arno. Yr oedd wedi ei gynysgaeddu a llais da, ac er na fedrai ddarllen miwsig eto yr oedd yn hollol sicr o'r dôn wedi'i dysgu, ac efe bob amser fyddai'n dechreu canu ymhob angladd a gwylnos.

Clywsom am dano yn dechreu canu ryw dro mewn gwylnos, ac meddai un oedd yn deall canu, "Ni ddaw'r dôn yna ddim Ianto" ; "Cân bachan, cân," meddai Ianto, "dwad, daw, a bydd peth o honi'n spâr hefyd." Dywedir ei fod heb ei fath am slyrio'r dôn yn rownd.

Yr oedd hefyd wedi cael ei freintio a chôf aruthrol. Clywsom ddweyd ei fod wedi trysori ar ei gôf y rhan fwyaf o emynau Pant-y celyn. Ni fedrai ysgrifennu na darllain, a phan ddaeth rheolau newydd i fewn i'r llythyrdy bu raid iddo roi ei swydd i arall, ac ni welwyd mohono mwyach ond anaml yn Nyffryn Cletwr Fach. Teithiai trwy'r dyffryn un diwrnod a chan fod ei lygaid yn gam-arweiniol, tarawodd dyn yn ei erbyn, "Bachan" meddai Ianto, "beth? wyt ti ddim yn edrych i ble 'rwyt ti'n mynd?" "Beth wyt ti te'n peidio mynd," meddai'r dyn," y ffordd wyt ti'n edrych?"

Ni pherthynai ef i unrhyw eglwys na chapel, tebig ei fod wedi tyfu'n fwy nag enwad. Dengys hynny ei fod yn ddyn o flaen ei oes. Fel y sylwyd, yr oedd yn hoff o fynychu gwylnosau. Pan ddych-welai o un ohonynt un tro gofynwyd iddo beth oedd ar y blaen yng ngweddi hwn a hwn. "Rhoddodd orchymyn pendant" meddai Ianto "i ni afaelyd yn dynn yn rhaffau'r addewidion." Cymerodd ran helaeth yn arferion a thraddodiadau 'i genedl. Wedi iddo fyned yn ddigartref symudwyd ef i Dloty Aberaeron ; cafodd ei symud oddi yno drachefn i weithdy'r Undeb yn Llanbedr, ac yno y bu farw yn y flwyddyn 1919 yn agos i 80 mlwydd oed.

GLAN GLOWON.

ENGLYN ar ôl clywed pregeth dda y Parch. Conwil Evans, Rhydygwin, Er cof am Mrs. ESTHER HUGHES, Maesffynnonoer.

Os distaw barlyswyd Esther—i bant
Oer y bedd, mae'n bleser
Cofio'i bywyd a'i hyder
I lân oes dan lyw ei Ner.

CRIBYN BACH.

Urdd y Benywod.

Y MAE y llythrennau N. a N. yn adnabyddys i'r mwyafrif ohonoch, ond am y tro yr ym ni yn benderfynol o ddweyd ein stori ein hunain yn hytrach na bod yn glogyn i'r Golygydd. Ni wyr o ddim o hanes Urdd y Benywod ac am hynny cawn ni ddweyd ein stori. Y mae tair wedi'u hapwyntio er ymweled a'n heglwysi, Mrs. Jones Y Bryn, Miss Evans Ffynnonfair a Mrs. Williams Brynllewelyn. Er rhoi'r hanes yn Yr Ymofynnydd ceisiodd y Golygydd gennym ni'n dwy fynd gyda hwy er croniclo'r argraffiadau. Wedi petruso tipyn rhag ofn mai yr un bregeth a gaem bob Sul, aethom er gweld ein Capeli.

Dechreuasom yng Nghaeronnen, y capel hynaf yn yr enwad ond odid yng Nghymru. Nid yw Caeronnen ond cynulleidfa fach ond y mae'n dal ei thir yn wrol. Cawsom apel gan Mrs. Jones a Miss Evans o blaid yr Urdd. Pwysleisid ein dyled i'r teidiau gan ddangos y medrid gwresogi'r gynulleidfa drwy'r Urdd. Ni ddywedodd neb nemor ddim ond penderfynwyd cychwyn yr Urdd. Ymhen rhyw fythefnos cawsom *social* i agor yr Urdd ac yr oedd un ar hugain yn bresennol. Penderfynwyd yno i gynnal y cyfarfodydd bob bythefnos ond gan na fedrai'r gweinidog fod yn bresennol ond un hwyr Sul y mis awgrymwyd cynnal cyfarfod o'r Urdd un hwyr Sul y mis er cael cyfarfod hwyr Sul felly bob bythefnos. Ni wyddid sut y gweithiai'r drefn newydd ond cafwyd cyfarfod hwyrol nos Sul wythnos i'r diweddaf a rhyw ddau ddwsin yn bresennol a phawb wedi mwynhau eu hunain gan deimlo mai da oedd cael dod i dŷ Dduw. Ni ddywedwn hynyna o fost ond er calondid i ryw gynulleidfa fechan wledig arall.

Y Sul wedyn awd i Fwlchyfadfa, a chan mai dyma'r tro cyntaf i ni fod yma mwynhasom yr olygfa a'r Capel prydferth. Apeliodd y Gweinidog am gefnogaeth i'r Urdd yn yr ardal wledig. Siaradodd y ddirprwyaeth a phenderfynwyd yn wresog i gychwyn yr Urdd, a hefyd i gynnal cwrdd o'r Urdd hwyr Sul er cael Cwrdd Chwech fel y dywedir. Cawsom dê yn Nolgerdd a theimlem fod hyn yn ddiweddglo hapus. Yr oedd teulu Dolgerdd wedi bod ym Mrondeifi a dyna ddigon. Yr oedd eisiau tê arnom wedi gwrando pedair pregeth er eu bod y pedair yn bregethau da.

Ym mhen yr wythnos yr oem yng Nghapel y Llwyn a gwelsom hen gapel y Llwyn a'r stâr garreg ar yr hon y safai Gwilym Marles y Sul byth-gofiadwy hwnnw. Y mae traddodiad hyfryd yn y fro a dylasai pob aelod yn y Llwyn deimlo ei fod yn sengi ar dir cys-

egredig. Yr oedd y Llwyn yn fwy diddorol i ni na'r un gynulleidfa am fod ein teulu wedi bod ynghlwm a hi. Tybiem weld teulu Siop New Inn yn dod, ac yn y fynwent y gorweddai rhai annwyl iawn i ni. Gobeithiem rywsut y buasai'r Llwyn yn gwneud yn dda er mwyn y teidiau gynt. Nid yw cynulleidfa y Llwyn mor lluosog ag y bu ond ba gynulleidfa y sydd. Yr oedd Llwyn wedi bod flynyddoedd yn ôl yn cynnal cyfarfodydd yr Urdd ond wedi eu rhoi i fyny. Haws cynneu tân ar hen aelwyd a'r galon ifancaf a mwyaf byw i ail ddechreu oedd calon Mrs. Jones, Gellifaharen. Wedi'r apel penderfynwyd ail ddechreu o'r newydd a theimlem nad ofer y daith yno. Cawsom de yn Llwynmarles—Tŷ'r gweinidog yn y Llwyn a theimlem y dylasai pob cynulleidfa fynnu tŷ'r gweinidog. Yr oem yn falch o wybod ar ble y safai. Y mae'n dŷ cyfleus a gobeithio y cymer pob cynulleidfa yr awgrym. Fe gaem ninnau "symud" wedyn yn Llanbedr oni byddwn wedi symud o Lanbedr cyn hynny.

Daethom wedyn yn nes gartref i Frondeifi a chredwn bod apel dawel a difrifol Mrs. Jones ynghyd ag anogaeth Miss Evans wedi dwyn ffrwyth. Yr oedd yma Urdd ers blynyddoedd a dechreuasom eleni gyda dros ddeugain o aelodau. Y mae'n cerdded yn gryf a gobeithiwn y bydd i'r Urdd roi bywyd newydd ymhob cynulleidfa.

Gan ein bod ni'n dwy yn aelodau o Urdd Caeronnen a Brondeifi gwell peidio dweyd gormod, ond gallwn ddweyd wrth y ddwy "Chwi wyddoch beth ddywed ein calon".

Yr oedd y tywydd yn ardderchog ac edrychem ymlaen at wibdaith Sul ar ôl Sul. Gyda llaw y mae gyda ni aelodau ym Mrondeifi yn agos o bob cynulleidfa yn y Sir ac yr oedd felly yn fwy diddorol. Yr oem wedi gweld rhai o gapeli'r enwad ym Morgannwg megis Trebanos, Y Notais, Y Wig, Caerdydd, Abertawe a Phenybont-ar-Ogwr. Yr oem yn falch felly o gael mynd i Alltyplaca a theimlo fod yr hen gynulleidfa hon yn dal ei thir ac yn barod i ail gychwyn yr Urdd. Disgwyliem hynny ac ni siomwyd mohonom. Clywsom am y *Social* a'r amser braf a gafwyd. Credwn y teimlir yr ysbryd deffro yn y gynulleidfa. Rhoem fanylion pellach amdani ond nid oem ynddi. Os am gael adroddiad llawn ni fuasai raid iddynt ond anfon gwahoddiad i'r *Social*. Llunier i gall hanner gair.

Ymhen yr wythnos yr oedd gennym daith ddiddorol i Gapel y Bryn a Chapel y Cwm. Yr oem yn awyddys i weld Capel y Bryn a'r Golygydd mor hoff o sôn amdano. Gwelsom y fynwent a gwyddem wedyn y pam. Yr oem yn gwybod cyn hynny.

Edrych y deml yn brydferth ar y bryn ac yn gofadail i'r Hybarch John Davies. Yr oedd yspryd parod yma i wneud eu goreu a chawd addewid y buasai yr Urdd yn cychwyn ar fyr. Gwyddem mai yn y pentref gwledig hwn y ganwyd y Parch. T. Arthur Thomas. Gwelsom hen Foelybryn ac wrth ei throed hen gapel Brynbach—festri y capel newydd. Cerddasom heibio Tro Jerry i Danralltgoch, ac yr ym yn fodlon mynd yno eto.

Gwelsom Ysgol y Cwrtnewydd a chwarddem o feddwl am y Golygydd yn yr ysgol yno. Aethom i fyny i riw Pensarn i Gapel y Cwm ac nid oes eisiau cynulleidfa na chapel bach gwell a mwynhasom ein hunain yno.

Gwnaeth y tair eu hapel a chredwn fod yr apel bersonol hon o gapel i gapel gan mil gwell na mil o lythyron. Pe caem ni ddweyd ein barn gorfodem Lywydd y Gymdeithas Undodaidd De Cymru fynd ar ymweliad a'r Capeli er gweld drosto ei hun y gwaith a wneir. Ni fuasai angen am apelio am arian ac ysgrifennu llythyron diddiwedd wedyn. Ein hangen pennaf yw y "*personal touch*," rhywun i gymryd diddordeb. O'r hyn leiaf ni pheidiodd un gynulleidfa eto ag ateb yn gadarnhaol. Y drwg amdani aeth y tair allan o wynt neu fe flinasant am Sul neu ddau gan adael y Graig a Phantydefaid, Capel y Groes lle y mae ers blynyddoedd Urdd gref a Chribin, Rhydygwin a'r Ciliau heb ymweled a hwy.

Y mae eisiau cario'r neges i bob cynulleidfa ac erbyn dydd y *Rally* credwn y bydd pob cynulleidfa wedi ateb yr alwad ac y cawn yno gynrychiolaeth deilwng a phob cynulleidfa yn rhifo aelodau'r Urdd wrth y degau, a neb ar y *Black List* yn gwrthod cydio yn nwylo'i gilydd.

Dyma'r ffordd i gael ysbryd newydd i gerdded yr hen lwybrau, a chael Undodiaeth i flaguro fel palmwydden. "Eraill a lafuriasant a ninnau a aeth i mewn i'w llafur hwy." Gwyliwn rhag ein cael yn anheilwng.

N. a N.

TACHWEDD.

Tan duchan daeth eto'n Dachwedd,—a daeth
Tŷ heb dân yn oeredd,
Yr hên goed yn grin eu gwedd
A'r afon yn floesg rhyfedd.

Cribyn Bach.

Michael Faraday.

"This land of England contained no truer gentleman than he."

"Michael Faraday by his discovery of Electro-Magnetic Induction in 1831 brought Electricity into the Service of Man."

CHWILIWR syml a gonest am y gwir, darganfyddwr a agorodd y drws i fyd newydd, gŵr bonheddig yng ngwir ystyr y gair ydoedd Michael Faraday, ac ni cheir yn nheml gwyddor enw anwylach na'i enw ef. Neithiwr, a'r tŷ yn cael ei oleuo a'i gynhesu gan drydan—fy wireless set yn dwyn cyngherddau Ewrop i Frynllewelyn drwy gymorth trydan—trydan fel llawforwyn i mi ar bob llaw, ceisiwn ddyfalu 'slawer dydd heb ddim ond "cannwyll frwyn" neu'r lamp fel llin yn mygu ar y pentan, heb un miwsig ond miwsig y cryciedyn ar yr aelwyd a'r tân tyweirch yn cynhesu, a chofiais am y "gŵr bonheddig hwn"—Michael Faraday—y gŵr nad yw'n ail i neb ym myd athroniaeth naturiol ond i Syr Isaac Newton.

Rhamant yw ei fywyd a mellten olau ynghanol ffurfafen ddu. Gwelodd ddygn dlodi ac anhawster fil i brofi ei fetel. Fe'i ganwyd yn Llundain Medi 22, 1791, o deulu wedi hannu o'r gogledd ond wedi ymfudo i Lundain ond odid er cael gwell siawns i fyw.

Nid oedd dim neilltuol yn ei deulu na neb o'i dylwyth hyd y gwyddys. Pobl dlawd oeddent. Gôf oedd ei dad ac afiechyd yn ei gadw yn *unemployed* yn fynych. Yr oedd yr amseroedd yn wael a'r werin yn dioddef. Nid oedd gwilydd ar Faraday gofnodi'r amseroedd blin mwy na Lloyd George yn sôn am foeth yr hanner ŵy fore Sul. Cofnoda y rhoddid iddo dorth gan ei rieni ddechreu'r wythnos a thyna ei *rations* am yr wythnos. Ni chafodd ysgol gwerth sôn amdani. Dysgodd ddarllain, ysgrifennu a rhifyddu, a phan yn dair ar ddeg oed dechreuodd redeg negesau dros Mr. Riebau, llyfrwerthwr a rhwymwr llyfrau, 2, Blandford Street, Marylebone.

Ymaelododd yn fore ond odid yn eglwys ei rieni—yr Eglwys Sandemanaidd yn Llundain. Nid oedd fymryn o ysbryd rhyddfrydig yn yr eglwys. Cychwynwyd y mudiad gan John Glas ac fe'i gelwid "y Glasiaid" am dro ond daeth ei fab yng nghyfraith —Robert Sandeman i'w gynorthwyo a rhoes ef liw ei feddwl a'i bersonoliaeth arno nes adnabod y mudiad fel y Mudiad Sandemanaidd. Tynnodd ar y mudiad y cyhuddiad ei fod yn Antinomaidd.

Dysgai "fod marwolaeth Iesu Grist yn unig, heb feddwl na gweithred o du dyn yn ddigon i gyflwyno y pechadur pennaf yn ddi-frychau gerbron Duw."

Nid oes nemor sôn am y mudiad heddiw mwy na thon ar wyneb y dŵr wedi iddi ymlonyddu a chofir am yr Eglwys Sandemanaidd yn Llundain ond odid yn bennaf am mai yno yr addolai Michael Faraday.

Yr oedd y cyfundeb bach yr adeg honno yn gyfundeb caeth a disgyblaeth eglwysig yn hacarnaidd. Cedwid "lovefeast" yr oedd raid i bob aelod ei mynychu. Ar ddydd y love-feast cafodd Faraday orchymyn i ddod i ginio at y frenhines, a gorchymyn y bydd y brenin neu'r frenhines ac ac nid gwahodd. Nid aeth Faraday i'r *Lovefeast* ond at y frenhines, ac er cymaint ei fri fe'i hesgymunwyd am iddo ufuddhau i frenhines ei wlad ac nid i Frenin Nef. Derbyniodd Faraday ei gerydd yn ysbryd y Cristion. Ni chadwodd draw. Mynychodd yn rheolaidd nes teimlo o'r eglwys ei fod yn edifeiriol a'i adferu i'w le. Myn bywgraffydd Faraday fod dwy adran i'w fywyd —un lle caniateid i'w ddeall mawr archwilio Natur a'r llall a'r *iron curtain* wedi ei ollwng i lawr a'r deall mawr wedi ei dywyllu yn credu heb amau na gofyn fel Ffwndamentaliaid yr oes hon. Dyna Faraday ond gŵr bonheddig bob cynnig. Yr oedd yn gariadus a thyner galon heb falchio yn ei glod na'i ddyrchafiad. Dywedai mai gwobr felysaf ei waith oedd y cydymdeimlad a'r ewyllys dda a berai i lifo ato o bedwar ban y byd. Yr oedd o galon garedig ac anfonodd ei chwaer ieuengaf i Foarding School er na fedrai dalu am yr ysgol ond trwy fynd heb ei ginio bob yn eilddydd.

Fe ddywedir fod llawer peth yn digwydd yn ddamweiniol. Ni charaf i awgrymu fod dim yn digwydd ar ddamwain neu ar ddigwydd. Gwell gennyf fod yn hen ffashwn a chredu bod rhywbeth heb law damwain neu ddigwydd yn gweithio. O leiaf o dderbyn yr awgrym o ddamwain, pennod o ddamweiniau oedd bywyd Faraday. Ar y dechreu "rhedeg negeseuon" dros Riebau y llyfrwerthwr ydoedd ac yn gwneud ei waith cystal er cael ei brentisio am ddim iddo. Ei waith un dydd oedd rhwymo "Yr Encyclopaedia Britannica," a dyma un o'r damweiniau'n digwydd. Wedi blino rhwymo neu o gymryd hoe troes Faraday dudalennau'r gyfrol fawr a dechreuodd ddarllain yr erthygl ar "*Drydan*." Yr oedd mor ddiddorol nes anghofio o Faraday am y rhwymo dro hir ellid tybio. Wrth y ford breuddwydiodd a gwelodd rywbeth mwy yn ei aros na rhwymo erthyglau ar drydan—dychmygodd ef ei hun yn dadrys problemau'r trydan. Damwain, debig iawn, ond damwain ddwyfol.

Rywddydd dyma ddamwain arall. Caraf i ddychmygu Faraday fel llanc ieuanc yn ennill calon y cwsmeriaid ac un dydd wele gwsmer yn estyn tocyn darlith Syr Humphrey Davy iddo ac yntau'n mynd i wrando ar y dyn mawr hwnnw. Nid gwrandawr anghofus mohono ychwaith ond yn ystod y ddarlith gwnaeth nodiadau dirif. Wedi cwblhau ei brentisiaeth daeth yr hen freuddwyd i anesmwytho arno. Ysgrifennodd lythyr at Davy gan amgau'r nodiadau o'r ddarlith. Ni wyddys ba argraff a gafodd y llythyr na'r nodiadau ond gwyddom *drwy ddamwain* a dylanwad Davy iddo gael lle fel *cynorthwywr* yn fferyllfeydd y Royal Institute ac yr oedd y swydd yn dwyn gyda hi ddwy ystafell iddo i fyw a phump swllt ar hugain yr wythnos. Yn 1813 meddyliodd Davy am fynd ar daith drwy Ewrop er gwneud arbrofion ym mhrif athrofeydd y Cyfandir. Yr oedd eisiau "gwas twt" arno a chynhygiodd y swydd i Faraday. Derbyniodd yntau'r cynnig a'r swydd. Gwelodd y byd ac agorodd ei lygaid.

Daeth yn ôl at ei hen swydd, cadw'r fferyllfa'n lân a chynorthwyo'r darlithwyr ond ef oedd y myfyriwr mwyaf yno. Yn 1821 ymbriododd a Sarah Bernard, merch blaenor yr eglwys Sandemanaidd.

Dechreuodd ysgrifennu erthyglau'i hunan a gwneud arbrofion. Nid oes gennyf i mo'r ddysg na'r ddawn i groniclo'i ddarganfyddiadau na'u rhoi mewn iaith seml. Gwn iddo agor y drws led y pen ac fod yma lu wedi cerdded drwy'r drws i deml Gwyddor. Pan sonir am electron heddiw ceir yr awgrym cyntaf amdano yng Nghyfreithiau Faraday o Electrolysis a roddodd fodolaeth "atoms" trydanol.

Yn 1831 dangosodd o symudid torch o wifr a fedrai gario ffrwd o drydan yng nghymydogaeth tynfaen neu i'r gwrthwyneb y cynhyrchid ffrwd drydanol yn y wifren. Yn ddiweddarach dangosodd pan berid clawr copr i droi rhwng pegynnau tynfaen ar ffurf pedol y cynhyrchid llif parhaol yn y wifren, ag un pen iddi wedi'i gysylltu a chanol y clawr a'r pen arall â'i ymyl. Dyma ond odid y dynamo cyntaf. Danghosodd drwy'r arbrawf hwn y ffordd i gynhyrchu ffrwd drydanol y sydd wedi dwyn trydan i gymaint o ddefnyddioldeb.

Eisteddwn yn aml i wrando'r Wireless. Tybed y gwelwn rhyngom a'r Loud-speaker gysgod Faraday oherwydd trwyddo ef yn 1830 y gwelwyd nad oedd raid i ddau gylch trydan (two electric circuits) i fod mewn cysylltiad materol ac uniongyrchol a'i gilydd cyn pasio o ynni trydanol o'r naill i'r llall. Dyma'r tro cyntaf i alw sylw at y cyfrwng rhyngddynt—yr ether ond odid. Yr oedd

ei galon yn ei waith. Enillai fel fferyllydd fil o bunnau'r flwyddyn ond gwelodd fod ei waith fel fferyllydd yn ei amddifadu o gyfleu i ddarganfod cyfrinachau trydan a rhoes y gwaith i fyny er i hyn ei dlodi fel nad enillai ond rhyw gant a hanner o bunnau'r flwyddyn.

Ni welai'i oes na'i ddydd ddim gwerth yn yr arbrofion hyn. Chwarae plant oedd y cyfan iddynt hwy. Mynych y gofynnid iddo ba werth neu les oedd y cyfan. Ni fedrai ond ateb yng ngeiriau Benjamin Franklin :

" Ba werth neu ddefnydd i'w plentyn newydd ei eni ? "

Gweithiodd mor galed nes torri o'i iechyd a hunodd un o'r chwilwyr gonestaf a pharchusaf am y gwirionedd ar Awst 25 yn y flwyddyn 1867 yn ŵr tlawd.

Ni fedraf i ei ddarlunio yn well na thrwy gymryd ei ddarlun ef o'r athronydd i ddangos y cymhellion oedd yn ei galon ei hun,—

" Dylasai'r Athronydd fod yn ddigon parod i wrando ar bob awgrym ond yn benderfynol o farnu drosto ei hun. Ni ddylasai fod yn rhagfarnllyd oherwydd ymddanghosiadau. Ni ddylasai fod ganddo ryw ddamcaniaethau dewis, na pherthyn i un ysgol, na chydnabod un meistr mewn Athroniaeth. Ni ddylasai fod ganddo dderbyn wyneb tuag at ddynion ond at bethau, a'r gwirionedd a ddylasai fod ei wrthrych blaenaf.

Ond ychwanegu at yr ansoddau hyn ddiwydrwydd medr obeithio cerdded tu fewn i'r llen yn nheml Natur."

" *Hanfod Duw a Pherson Crist*

Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist,

yn bennaf yn ei pherthynas â Chymru

Gan John Gwili Jenkins, Bangor."

NI fwriadaf i adolygu'r Llyfr hwn, ond fe oddefir i mi ddiolch amdano, a dyna wnaf. Ni cheisiaf ond galw sylw ato a chymell fy nghyd-Undodiaid i'w brynu. Ofnaf bod rhaid cymell hyd yn oed yr Undodiaid bellach. Nid wyf am roi sen i un enwad ond er yr adeg y darllenais lyfr Joshua Thomas

ar Hanes y Bedyddwyr yr wyf wedi arfer disgwyl tegwch oddiar law Bedyddiwr. Credaf ein bod yn fwy dyledus i Fedyddwyr fel haneswyr na neb. Tybed bod traddodiad hanes ganddynt. Nid oes raid ond enwi Joshua Thomas, Shankland, Dr. Tom Richards a Gwili. Nid amheuaf nad ynt yn Fedyddwyr o'r Bedyddwyr, ond nid yn ormod o Fedyddwyr (neu yn rhy fach hwyrach) i fod yn deg. Ni chefais i y fraint o ysgwyd llaw a'r un o'r cedyrn hyn—ni fedrem a Joshua Thomas, ac er fy mod yn adnabod Gwili yn yr ysbryd o'r dyddiau y bu gyntaf "Tu Hwnt i'r Llen," ni chefais ond cip unwaith neu ddwy arno yn y cnawd a minnau yn rhy fach i dynnu sylw Archdderwydd Cymru. Nid yw hynyna ond gyda llaw.

Addefaf fy mod yn disgwyl ei lyfr o'r adeg iddo ei addo tua 1920. Y mae un flynedd ar ddeg yn amser hir i ddisgwyl ond o wybod rhywbeth am y maes addefaf nad yw wedi bod yn rhy hir.

Y mae'n gyfrol drwchus o yn agos i bum cant o dudalennau, yn cael ei gwneud i fyny o bedair pennod ar ddeg a cheir awgrym o'i chynnwys ym mhenawdau'r penodau,—

> "Rhesymoliaeth, Calfiniaeth ac Arminiaeth, Deistiaeth, Dadlau ynghylch y Drindod, Apolinariaeth, Patripasiaeth, Ariaeth, Sabeliaeth, Trindod Ysgrythurol I. a II., Undodiaeth, Amddiffyn Trindodiaeth a Damcaniaethau Diweddar I. a II."

Darllenais y gyfrol o glawr i glawr gyda blâs a chan fy mod innau wedi bod yn blewyna ar hyd yr un meusydd yr oedd yn fwy diddorol fyth. Y mae Gwili yn yr oll a ysgrifenna yn amcanu bod yn deg ac ni fodlona draethu dros y fraich. Gŵyr ei bwnc yn dda ac ysgrifenna'n ddiddorol. Nid oes nemor ddim wedi'i ysgrifennu ar y pwnc fel y mae'n arloeswr. Darllenais ei benodau ar Arminiaeth, Ariaeth ac Undodiaeth yn ofalus. Ni fedrai Undodwr fod yn deeach. Hwyrach y buaswn i yn fwy llawdrwm. Credwn na fedrai Gwili fod yn anhêg ac ni'm siomwyd. Ceisiodd ysgrifennu hanes fel y dylid ei ysgrifennu a chydiodd mewn pwnc yr oedd angen ei ddadrys. Gwnaeth ei waith yn ofalus. Triniodd ei bwnc yn deg. Ysgrifenna Gymraeg gwydn. Y mae darfelydd yr hanesydd ynddo. Ni fedrir deall hanes Diwinyddiaeth yng Nghymru heb ei ddarllain. Gwel rhywun ynddo ond odid wallau a chamsyniadau. Nid oes gennyf i mo'r hwyl i'w chwilio ond cymeradwyaf y llyfr yn galonnog fel cyfrol anhepgor i'r neb a fyn ddeall problemau dyrys Cymru yn y canrifoedd yr ymdrin a hwynt.

Pe bawn broffwyd, proffwydwn y dylai fod yn "Best Seller" ac y bydd yn gyfrol werthfawr a phwysig dro hir ac ymhell wedi mynd o Gwili yr ail dro Tu Hwnt i'r Llen.

Penillion Telyn.

"TRECH metel na maint," ac os gwir hyn y mae llyfr bach *mawr* o'm blaen yn y gyfrol gyntaf o gyfres y *Ford Gron*. Wedi talu chwe'cheiniog amdani y mae'n anodd ei rhoi o law nes ei darllain drwodd. Y mae rhai o'r penillion yn gyfarwydd a dont yn ôl fel atgofion melys 'slawer dydd. Gŵyr llawer am rym hiraeth fel Goronwy Ddu :

Y lle bûm yn gware gynt
Mae dynion na'm hadwaenynt ;
Cyfaill neu ddau a'm cofiant,
Prin ddau, lle'r oedd gynnau gant.

Meddwl am yr hen fro ydoedd ac yntau'n alltud yn cael ei anghofio yn ŵr dieithr yn yr hen ardal. Y mae hen bennill yn fy nghof ers tro byd a chredaf fod yr hiraeth ynddo yn angherddol—dyn heb obaith i weld yr hen ardal. ond yn methu'n lân ag anghofio—

Bydd blodau'r ceirios gwynion
Fel eirin duon bach,
Cyn delwy'n ôl drachefn
I Ddyffryn Cletwr Fach.

Y mae rhywun wedi bod yn alltud neu wedi cladddu rhywun annwyl iawn. Y mae'n medru anghofio ar dro y dydd. Y mae galwadau'r byd yn peri iddo roi ei feddwl ar ei waith gan ei alw adref o'i grwydriadau pell ond gadawer iddo gau ei lygaid ac y mae'r hiraeth yn ei anesmwytho. Ni fedr gysgu ond ennyd fer a daw hiraeth gan ei ddihuno. Ni fedr anghofio. Dyma'r hiraeth y sydd yn lladd :—

Hiraeth cryf a Hiraeth creulon,
Hiraeth sydd yn torri 'nghalon ;
Pan fwy dryma'r nos yn cysgu
Fe ddaw Hiraeth, ac a'm deffry.

Blodau gwyllt yw'r hen benillion hyn a dyna yw'r llyfr, pwysi o flodau gwyllt a'u perarogl yn hyfryd. Nid oes awdur wrth yr un ohonynt. Ni chanwyd mohonynt. Tyfu a wnaethant fel y blodau gwyllt ac y mae blas hen draddodiad arnynt. Darlunir ynddynt fywyd ar hindda a drycin—rhyw *ffosils* neu emau wedi'u anghofio neu wedi eu hestyn i lawr fel *heirlooms* y werin o genhedlaeth i genhedlaeth. Ar ambell dro fe dynnir *snapshot* o ddyn heb yn

wybod iddo. Dyna sydd yma, *snapshots* o'r genedl yn chwerthin ac wylo, ar ei huchelfannau ac yn y dyfnder. Ys dywed y Golygydd,—

"Ochenaid, neu ddeigryn, neu chwerthiniad, wedi ei ddal a'i rwymo, ydyw pob un ohonynt."

Nid oes ôl cŷn na morthwyl ar yr un ohonynt · ac eto y maent wedi byw am fod ynddynt brofiad ffres a naturiol gwerin. Ynddynt y gwelir nwyfusrwydd a llonder y Cymro. Nid oes yma ymgais at strôc ond pennill byw mor naturiol ag anadlu. Ni wn i beth y priodolir llyfnder eu hymadrodd. Gwell gennyf i rywsut gredu eu bod fel cerryg afon neu gerryg ar draeth wedi dod yn llyfn gyda threigl amser—amser, ond odid, wedi rhwbio ymaith gorneli llawer un ohonynt. Pwy ddydd darlithiai gŵr enwog ar Yr Aifft a Chanan. Yr own wedi darllain digon am y ddwy wlad ond rywsut deuthum i wybod mwy amdanynt drwy *snapshots* y gŵr a fu yno. Credaf y down innau i adnabod y Cymro—adnabod ei galon yn well drwy edrych arno, nid pan y gŵyr ein bod yn sylwi ond yn y *snapshots* ohono y mae un genhedlaeth ar ôl y llall wedi estyn i ni. Ofer ceisio pennu'r amser na'r awdur. Nid oes angen gwybod yr un ohonynt am eu bod fel y genedl ei hun yn dragwyddol ieuanc.

Gan na welodd odid neb o'm darllenwyr Ragair Yr Athro T. Gwynn Jones i'w Gelfyddyd Gwta, credaf nad anniddorol y dyfyniad hwn,—

"Ychydig iawn a wyddis o hanes y penillion a elwir yn benillion telyn a glywir weithiau hyd heddiw ar dafod leferydd. Ni wyddis pwy a'u gwnaeth, ac ni ellir bod yn sicr iawn pa bryd y gwnaed ychwaith. Efallai—yn wir, gellir profi— i rai ohonynt fod unwaith yn rhan o gân, ond anghofiwyd y pennillion i gyd ond rhyw un. Bu hwnnw fyw ar gof gwlad, nes i rywun o'r diwedd ei sgrifennu i lawr. Os ymofynnwn yn fanwl, fe welwn paham y cofiwyd y penillion hyn. Gwelwn hefyd fod nid ychydig o rinwedd ym meddwl y bobl a'u cadwodd ar gof. Atgofion yw'r penillion bychain hyn, sudd profiad wedi ei wasgu i le bach, fel pe tynnid peraroglau rhosyn a'i botelu a'i gadw. Bydd darllen rhai ohonynt yn peri i chwi feddwl am hen gist a fu â chlo arni am flynyddoedd, a chwithau'n ei hagor ac edrych drwyddi—dyfod o hyd i fwndel o hen lythyrau, cudyn o wallt, neu flodyn wedi ei wasgu rhwng dwy ddalen."

Ni fwriadaf i ond pigo allan *snapshot* yma a thraw, dangos blodyn hyfryd ei berarogl, ie, agor y botel scent, chwedl y prifardd, er i'w pherarogl eich cyrraedd. Yn wir y mae'n anodd peidio

caru Cymro'n fwy o weld y profiadau a fu'n byrlymu yno cyd. Rhennir y detholiad yn saith rhan yn ôl y teimlad a'u rheola.

O dan deitl Cariad y ceir profiad calon ar hyd yr oesau, ac fe ddisgwyliem weld yma brofiad Morgan Jones o'r Dole gwyrddion a'i gariad Mary Watkins o'r Dyffryn Llynod,—

Mae'n anhawdd plethu dŵr yr afon
Mewn llwyn teg o fedw gleision,
Dau anhawddach peth na hynny
Yw rhwystro dau fo'n ffyddlon garu.

Yma hefyd ceir calon yn chwarae a thân drwy garu dau ond yn awgrymu o leiaf ei bod yn *drue* i'r cariad cyntaf,—

Paham mae'n rhaid i chwi mo'r digio
Am fod arall yn fy leicio ?
Er bod gwynt yn ysgwyd brigyn
Rhaid cael caib i godi'r gwreiddyn.

Ys dywed Iolo yn y *Ford Gron*, "y mae'r adran a geir dan yr enw "Doethineb Profiad" yn llawn o'r llymder hanner maleisus a geir mewn diarhebion."

Ac yr awron 'rydwy'n dechrau
Dallt y byd a chyfri 'nghardiau,
Ac adnabod fy nghymdogion,
Duw, pa hyd y bum i'n wirion i

Gŵyr pob un am y profiad hwn—profiad natur wyllt :

Bum edifar, fil o weithiau,
Am lefaru gormod geiriau ;
Ond ni bu gymaint o helyntion
O lefaru llai na digon.

Lle bo cariad fe ganmolir
Mwy ond odid, nag a ddylir,
A chenfigen a wel feiau
Lle ni bydd dim achos weithiau.

Perchen tafod a arfero
Ddweud am bawb y peth a fynno,
Bydd rhaid iddo wrando'n fynych
Lawer peth na bo'n ei chwennych.

(*I'w barhau.*)

Priodasau.

Dydd Mawrth, Awst 18, o flaen y Cofrestrydd, yn Swyddfa'r Cyngor, Pontardawe, ymbriododdd Mr. Henry Richards, Trebanos â Miss Mary Jones, Waverly Street, Clydach.

Dydd Mawrth, Medi 8, yng Nghapel yr Alltwen, Pontardawe, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. W. J. Rees, gweinidog, unwyd mewn glân briodas, Mr. William Bowen, Trebanos â Miss Sarah Davies, Heol y parc, Alltwen.

Dydd Sadwrn, Medi 19, yn Ebeneser, Rhos, Pontardawe, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. David Jenkins, (Urbanus), gweinidog, priodwyd Mr. Christmas Elwyn Davies, "Llysywawr," Trebanos â Miss Hannah Davies, Rhos, Pontardawe.

Ar y 14eg o Hydref yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd, gan y Parch. S. E. Bowen, unwyd mewn priodas Thomas Lloyd Jones, Lloyd Jack, Felinfach â Mary Hannah Davies, Brynhogfaen, Cwrtnewydd. Eiddunwn bob dedwyddwch iddynt.

Marwgofion.

Awst 22ain, yn un diwrnod ar ddeg oed, Mair, geneth fach Enoch a Martha Evans, Fronddu. Claddwyd ei gweddillion y Llun canlynol yng Nghapel y Bryn a'r Parch. S. E. Bowen yn gwasanaethu. Diddanweh Duw i'r tad a'r fam ieuanc yn eu colled.

Gyda blinder calon yr ydym yn cofnodi hanes marwolaeth y brawd Lewis Lewis, annwyl briod Mrs. G. Lewis, 11, Mount Pleasant, Trecynon, yn 70 oed. Bu farw dydd Llun, Medi 28ain. Ni fu mewn iechyd da ers misoedd, ac yn yr wythnosau diweddaf dioddefodd boenau a gwendid mawr. Yr oedd yn aelod o'r Hên Dŷ Cwrdd, ac ni fu gan neb fwy o barch i'r hen achos nag oedd ganddo ef. Yr oedd yn weithiwr gonest ac yn un o'r dynion mwyaf llawen a hapus yn y gymdogaeth. Yr oedd gan bawb air da i "Lewis y Gof." Yr oedd yn un o'r cymeriadau hynny a allesid dweyd am dano ei fod yn "*true to nature.*" Nid oedd dim yn fwy wrth ei fodd na chael eisteddfod ac yntau yn y gystadleuaeth fel adroddwr—ac yr oedd mor hapus fel colledwr ag ydoedd fel enillwr. Ychydig o'i "dype" ef sydd ar ôl yn ein hardal, a gresyn yw ein bod yn colli cymeriadau gwreiddiol fel hyn, a neb yn dod i lanw eu lle. Yr oedd pawb yma yn 'nabod Lewis y Gof, a safai mewn parch uchel yn yr ardal. Yr oedd yn gyfaill trwyadl a ffyddlon, ac o fewn ei allu, nid oedd yr un gymwynas yn ormod iddo ei gwneud. Daeth tyrfa fawr ynghyd i'w angladd dydd Iau, Hydref laf, a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus. Estynnwn i'r weddw a'r teulu ein cydymdeimlad dwysaf yn eu trallod a'u hiraeth. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Dydd Mawrth, Hydref 6, wedi cystudd byr bu farw yn ei chartref, Southgate, Aberystwyth, Florence Griffiths, annwyl briod y Parch. Dr. William Griffiths. Yr oedd yn Undodwraig o'i chrud a threuliodd fore'i hoes yn Nhrowbridge, ac wedi priodi rhannodd lafur ei phriod ym Mhontypridd, Ilkeston, Manchester Oldham Road a Chorgleton. Treuliodd flynyddoedd olaf ei hoes yn Aberystwyth mewn neilltuaeth. Yma y mynychai Dŷ Cwrdd New Street a phan ffurfiwyd cangen o Urdd y Benywod yma'n ddiweddar apwyntiwyd hi yn Llywydd. Er ei gwerthfawrogi'n iawn rhaid oedd ei hadnabod ar yr aelwyd gartref. Fel priod, mam a chyfaill yr oedd yn rhagorol. Ni wnai ac ni feddyliai ddrwg am neb. Mewn amryw am-

gylchiadau digon blin y sydd ynglyn a swydd pregethwr a gweinidog ni syrthiodd yn fyr mewn amynedd a llonder. Y mae'i mynd yn golled ac yn achos galar nid yn unig i'w phriod, ei mab a'i dwy ferch, ond hefyd i gylch helaeth ei chydnabod a ddysgont ei pharchu a'i charu. Llosgwyd ei chorff yn y Glyntaff Crematorium, Pontypridd pryd y gwasanaethwyd gan y Prifathro J. Park Davies, Caerfyrddin. Anghyoedd oedd yr angladd. Gwasanaethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan berthynas y teulu—y Parch. Noah Jones, Rheithor Hafod, ger Pont-y-gŵrdrwg. Nerth a gaffo'r teulu i alaru yn gymhedrol.

Er Côf

am y diweddar Mrs. Esther Hughes, Maesffynnonoer, Rhydygwin.

Tawel a phur o galon oedd Esther,
Ffyddiog yn Nuw fel yr Esther gynt ;
Cerddodd yn brydferth drwy Ddyffryn Aeron
Ar ei gwên, a chroeso'n ei chalon—
Parod ei chymwynas oedd ar ei hynt.

Cerddodd y *rhydiau* am flynyddoedd meithion
O Rydyfydyr i Rydygwin :
Collodd ei golwg ond nid ei chalon ;
Blaenodd, gan dario tu hwnt i'r afon--
Yntau tu yma yn drist a blin.

Ar ei waethaf griddfanna'i phriod,—
" O, Dduw ! fy Nhad ! tynera fy llef ;
Tlawd ac unig wyf ar y dalar ;
Oer ac anniddan yw rhodio'r ddaear
Wedi hanner canrif o Nef."

" Cefais dros hanner canrif o Nefoedd,
Maddeu, O Dduw, fy hiraeth a'm llef—
Cael ei chwmni fel yn Nyffryn Aeron
Wedi i minnau rydio *yr Afon*
Ydyw fy ngweddi, a dyna fydd Nef."

Hen Ffrind.

Nodion yr Eglwysi.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH—Capel-y-Cwm : Nos Fawrth, Hydref 13eg, gwasanaethwyd gan y Parch. D. C. Griffiths, Aberduar. Alltyplaca : Nos Fercher y 14eg a Capel-y-Bryn nos Wener y 16eg a'r Parch. E. O. Jenkins yn gwasanaethu. Cafwyd cyrddau neilltuol o dda a'r cynulleidfaoedd yn fwy lluosog nag arfer.

BRONDEIFI A CHAERONNEN.—Gwasanaethwyd yng Nghyrddau Diolch Caeronnen gan y Parch. T. Arthur Thomas, Llandysul ac ym Mrondeifi gan y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., Caerfyrddin.

ALLTYPLACA, CAPEL-Y-BRYN A CAPEL-Y-CWM.—Yn y tri chapel hyn ar Sul, Hydref 18fed bu trafodaeth ar y pwnc o gasglu at gronfa'r myfyrwyr, a phenderfynwyd yn unfrydol ein bod yn gohirio gwneud y casgliad blynyddol arferol nes cael sicrwydd oddiwrth y Gymdeithas fod y " Grants " i'r myfyrwyr yn cael eu gwneud ar yr amod pendant eu bod yn myned i'r weinidogaeth Undodaidd ac os bydd iddynt fethu yn hyn bydd yn rhwymedig arnynt i dalu yn ôl yr hyn y maent wedi ei dderbyn.

HEN DY CWRDD, TRECYNON.—Saboth y 25ain o Hydref, 1931, cynhaliwyd cyfres o Gyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn yr Hen Dy Cwrdd. Gwasanaethwyd drwy y dydd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Llanbedr. Cafwyd cynulliadau lluosog a'r pregethwr mewn hwyl dda. Nid oedd ond canmoliaeth uchel i'w glywed ar bob llaw ymhlith y gwrandawyr, yn enwedig nifer fawr tuallan i ffiniau Undodiaeth, a da oedd clywed hyn. Y nos Lun canlynol rhoddwyd Darlith gan y Parch. T. Oswald Williams yn yr ysgoldy. Cafwyd

cynulliad lluosog eto: testun y Ddarlith oedd "Dafydd Dafis, Castell Hywel." Yr oedd, fel y crybwyllais, hwyl dda yn y Cyfarfodydd Diolchgarwch ond yn y Ddarlith yr oedd y darlithydd mewn uchel ŵyl, a'r cynhulliad yn sychedu am rhagor o hyd o hanes y gwron o Gastell Hywel. Dymuniad pawb oedd am wledd gyffelyb yn fuan eto. Llywyddwyd gan y Gweinidog y Parch. E. R. Dennis. Siaradwyd geiriau o gymeradwyaeth a diolch gan Mr. Tyssul Davies, Mr. Thomas, brawd o Gwmaman a berthynai i Gymdeithas Ceredigion Aberdâr, a Mr. John Lewis, Ysgrifennydd Eglwys Anibynnol Ebeneser, Trecynon.

Adran yr Ysgol Sul.

MAES LLAFUR AM 1931—1932.

SAFON I. (I rai dan 10 oed):

1. O'r Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist gan y Parch. D. Evans. Rhan I. Gwaith y flwyddyn gyntaf.
2. Dysgu'r Emyn "Calon Lân" (Perlau Moliant, 463) a'r Safon gyda'i gilydd i'w ganu.

SAFON II. (I rai dan 13 oed):

1. O'r Holwyddoreg, Rhan II. Gwaith y Flwyddyn gyntaf.
2. Ioan v., 1—18; vi., 1—13.

SAFON III. (I rai dan 15 oed):

Ioan v., 1—18; vi., 1—13; ix. Disgwylir rhai adnodau ar y cof o'r rhannau hyn.

SAFON IV. (I rai dros 15 oed):

Ioan v—ix: Ateb cwestiynnau ar y penodau; ystyron geiriau ac ymadroddion.

Nodiadau.—1. Dydd yr Arholiad Sadwrn olaf ym mis Mawrth, 1932. 2. Arholwr y Parch. T. L. Jones. 3. Gall unrhyw blentyn os bydd yn dewis eistedd yr Arholiad yn Safon II. a'r III. ar lafar, ond os am fathodyn a gwobrau eraill, yr ysgrifenedig yn unig a gyfrif. 4. Bydd y Trysorydd, Mrs. Jones, Y Bryn, Llanybyther yn ddiolchgar am gyfraniadau yr Ysgolion Sul erbyn Rhagfyr 21ain er mwyn iddynt ymddangos yn adroddiad y Gymdeithas.

S. Evans Bowen (*Ysgrifennydd*).

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.

(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.

By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.

(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.

An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,

Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.